

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Abertawe

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Abertawe i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Mae Abertawe yn bodloni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn erbyn hyn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Abertawe 7 ohonynt yn llawn, 1 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 2 ohonynt.

Mae gwasanaeth llyfrgell Abertawe wedi llwyddo i gynnal ei berfformiad yn fras yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, gyda chryfderau nodedig mewn rhaglennu digwyddiadau a gweithgareddau. Mae tystiolaeth o ddirywiad mewn meysydd eraill o ddefnydd gwasanaethau, fodd bynnag, tuedd a welir hefyd mewn gwasanaethau eraill ledled Cymru. Mae'r gwariant ar y gwasanaeth wedi'i gynnal, sy'n arwydd o'r gefnogaeth a gaiff ar draws yr awdurdod, gyda buddsoddiad yn y gyllideb deunyddiau wedi'i flaenoriaethu (er bod rhai o'r targedau yn y maes hwn yn dal i fod heb eu cyrraedd). Mae'r lefelau staffio yn parhau i fod yn isel, ond mae'r gofynion ar gyfer cymorth proffesiynol wedi cael eu hadolygu. Mae'r nifer uchel o swyddi gwag yn y gwasanaeth yn effeithio ar berfformiad cyffredinol, sydd yn anochel yn effeithio ar allu'r staff i hyrwyddo a darparu gwasanaethau, ac yn ffactor posibl yn y meysydd o ddefnydd sy'n dirywio. Mae datblygu a chyhoeddi Cynllun Gwasanaeth 2018-21 newydd yn golygu bod yr hawl graidd yn cael ei bodloni erbyn hyn, gan ddarparu fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau at y dyfodol.

- Mae pob man gwasanaeth yn darparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae cymorth ar gyfer iechyd a lles wedi cael ei ymestyn yn 2018/19. Dywedodd 99% o oedolion fod y gwasanaethau yn 'dda iawn' neu'n 'dda' ar y cyfan.
- Mae'r niferoedd sy'n cael hyfforddiant ffurfiol wedi lleihau ychydig ac maent yn parhau'n gymharol isel; mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu, ac maent uwchlaw'r lefel ganolrifol.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi parhau i wella, ac mae bellach wedi cyrraedd y pedwerydd safle uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Er bod lefelau defnydd yn dal dipyn yn uwch na'r lefel ganolrifol ar y cyfan, mae niferoedd wedi parhau i leihau yn y rhan fwyaf o feysydd.
- Ni chaiff targedau ar gyfer cyfanswm yr eitemau a gaffaelwyd ac ar gyfer deunyddiau Cymraeg eu cyflawni o hyd, ond mae'r gwasanaeth wedi cynyddu ei fuddsoddiad yn y ddau faes.
- Mae lefelau staffio cyffredinol wedi lleihau ar y cyfan, ac mae nifer o swyddi gwag yn y gwasanaeth, ond bu gwelliant bach o ran lefelau staffio proffesiynol, gydag adolygiad o anghenion staffio yn arwain at gynnydd yn nifer y swyddi sy'n gofyn am gymwysterau. Mae'r lefelau staffio proffesiynol dal ymhlith yr isaf yng Nghymru, sy'n cyfyngu ar allu'r gwasanaeth.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cael ei gynnal, gyda'r buddsoddiad y pen mewn gwasanaethau llyfrgell ar gyfartaledd ychydig uwchlaw'r lefel ganolrifol.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Abertawe bellach yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn, yn sgil datblygu a chyhoeddi ei Gynllun Gwasanaeth ar gyfer 2018-21. Er bod HG 6 wedi'i chyflawni'n llawn unwaith eto yn 2018/19, nodir bod ffioedd cyhoeddedig am eitemau a gedwir yng Nghymru ond y tu allan i'r cynllun cyd-fenthyca rhanbarthol am eitemau newydd i'w stocio; deallir nad yw'r ffioedd hyn yn cael eu codi fel mater o reol ond byddai eglurder ynglŷn â'r polisi codi ffioedd cyhoeddedig yn y maes hwn yn briodol i ddefnyddwyr. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fynd i'r afael â phob maes arall yn effeithiol, gan weithio gyda nifer o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau, gan gynnwys cefnogaeth i fentrau e-adnoddau Cymru gyfan. Ymgynghorir â defnyddwyr ynglŷn â gwasanaethau a newidiadau arfaethedig, ac mae adnodd ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd yn cael ei ddefnyddio i gasglu adborth cwsmeriaid yn well.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Abertawe yn cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawnwyd?	
DA 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	

DA 10 Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mae Abertawe wedi cynnal ei berfformiad yn yr ail flwyddyn hon o'r chweched fframwaith, heb unrhyw newid sylweddol o gymharu â 2017/18.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cwblhaodd Abertawe ei arolygon o ddefnyddwyr i oedolion a phlant ym mis Tachwedd 2018. Er bod ffigur wedi'i nodi ar gyfer DA 5 b) isod, nid yw'r sampl a arolygwyd yn bodloni'r gofyniad sylfaenol i fod yn ystadegol gywir.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	94%	7/13	60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	86%	=10/15	38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd bod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	94%	=13/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Abertawe bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Llyfrgelloedd Lleol – gwerth ei llyfrgell leol i un fam ifanc, a oedd yn newydd-ddyfodiad i'r ardal o gefndir Ewropeaidd. Gwnaeth y llyfrgell ei helpu i oresgyn teimladau o fod

wedi'i hynysu, i wneud ffrindiau a dod yn rhan o'r gymuned; roedd yn gallu cael gwybodaeth am wasanaethau lleol, defnyddio adnoddau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'i mab.

- Coffa Cymunedol - llyfrgell gymunedol sy'n cynnal arddangosfa ganmlwyddiant i gofio am y dynion lleol a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cynhaliodd y llyfrgell weithdai barddoniaeth a gwneud pabïau i gyfrannu at yr arddangosfa a chynhaliodd Wasanaeth y Cofio gyda thros 150 o westeion o'r gymuned, y lluoedd arfog ac ysgolion lleol. Cafodd y llyfrgell ei chanmol am helpu i ddod â gwahanol genedlaethau o'r gymuned ynghyd, ac am y cyfleoedd dysgu a roddwyd i ysgolion lleol.
- Hanes Teuluol – cymorthfeydd effaith hanes teuluol a gynhaliwyd mewn llyfrgelloedd cymunedol gan staff llyfrgell. Roedd mam a oedd wedi aros gartref angen magu hyder i lwyddo mewn cyfweiliadau swydd er mwyn ailymuno â'r gweithlu. Oherwydd ei diddordeb mewn hanes teuluol dechreuodd ddod i'r cymorthfeydd, ond gyda disgwyliadau isel am ei allu. Gwnaeth y cymorthfeydd ddangos iddi fod ei sgiliau TG yn dda, ac roedd darganfyddiadau am ei theulu wedi helpu i newid ei hagwedd tuag at fywyd, gan roi mwy o hyder ac ymdeimlad o hunanwerth iddi.
- Grŵp Crefft - effaith grŵp crefft gemwaith wythnosol, a lansiwyd gan un o gwsmeriaid y llyfrgell yn ei llyfrgell leol. Mae'n grŵp hunangynhaliol sy'n gwneud defnydd da o adnoddau'r llyfrgell a'r gofod i gefnogi gweithgareddau, gan gyrraedd pobl o bob oedran. Mae'r rhai sy'n dod yn dysgu sgiliau newydd, ond hefyd yn cael budd o'r cyswllt cymdeithasol, gan ennyn hyder a hunan-barch, mewn amgylchedd llyfrgell sy'n ddiogel ac yn groesawgar.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Abertawe ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	61%	13/15	24%	82%	96%	65%
c) iechyd a lles	58%	=9/15	33%	62%	94%	54%
d) lle diogel a chroesawgar	96%	=11/15	90%	97%	100%	97%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	=6/14	81%	91%	98%	91%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=3/14	93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	78%	=10/13	65%	91%	95%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	99%	=1/14	93%	97%	99%	99%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.5	=1/13	8.5	9.3	9.5	9.0

DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	24	=16/22	13	30	208	25
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	239	11/22	15	199	433	215
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth						
	427	4/22	91	295	689	398
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	4,272	6/22	2,596	3,969	7,170*	4,342
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	850	12/22	345	885	2,205	1,047
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	185	6/22	58	150	251	196
DA 10 Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²						
	557	13/22	95	602	1,424	553
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	9	14/22	5	10	14	8
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	33%	=4/22	14%	25%	63%	33%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	28	=13/21	3	30	214	36
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	1,706	9/21	90	1,477	9,806	1,802
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£12,240	11/22	£7,181	£12,145	£19,449	£11,915
b) % ar staff	75%	4/22	47%	62%	78%	73%
% ar adnoddau gwybodaeth	14%	8/22	8%	13%	21%	14%
% ar offer ac adeiladau	3%	15/22	0.4%	4%	25%	3%
% ar gostau gweithredol eraill	8%	18/22	0.3%	16%	37%	10%
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	£575	9/22	£0	£467	£8,829	£534
DA 15 – Cost net am bob ymweliad						
	£1.88	10/22	£1.18	£1.82	£2.52	£1.80
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/20	0.00%	0.28%	7.99%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Abertawe ei arolwg o ddefnyddwyr i oedolion a phlant ym mis Tachwedd 2018, gyda lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid o hyd, ond mae'r graddau ar gyfer darpariaeth TG (78%) yn is na'r graddau ar gyfer meysydd eraill. Nodir y dylai gwaith arfaethedig i uwchraddio cyfrifiaduron personol at ddefnydd y cyhoedd yn 2019/20 wella profiad cwsmeriaid o ran hyn. Mae'r safbwyntiau a nodwyd ynglŷn â sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi datblygiad sgiliau ac iechyd a lles yn parhau'n gymharol isel, ond serch hynny

dywedodd 99% o oedolion fod y llyfrgell yn dda iawn neu'n dda yn gyffredinol. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae'r ystod o wasanaethau iechyd a lles wedi cael ei ymestyn yn 2018/19, gyda'r targedau o ran hyn yn cael eu cyflawni. Mae'r niferoedd sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr wedi lleihau ychydig unwaith eto ac maent yn aros yn gymharol isel, ond mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi gwella, ac mae'r perfformiad o ran hyn yn dal uwchlaw'r lefel ganolrifol.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Abertawe yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'r llyfrgelloedd sefydlog. Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi parhau i wella, ac mae bellach wedi cyrraedd y pedwerydd safle uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Er bod lefelau defnydd yn dal dipyn yn uwch na'r lefel ganolrifol ar y cyfan, mae nifer y defnyddwyr wedi parhau i leihau yn y rhan fwyaf o feysydd, sef tuedd a welir mewn awdurdodau eraill ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn nodi gwell perfformiad o ran rhith-weliadau a lawrlwythiadau electronig, sy'n debyg i'r rhan fwyaf o wasanaethau eraill yng Nghymru.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Rhodddwyd blaenoriaeth i wariant ar ddeunyddiau, ac adlewyrchir hyn yn y cynnydd yn nifer yr eitemau a gaffaelwyd yn uniongyrchol, ond ni chaiff y targedau o ran hyn eu cyflawni o hyd. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi parhau i wella ei fuddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg yn ôl y bwriad, ond unwaith eto erys y perfformiad yn is na'r gofynion a bennwyd. Nodir y bydd y gwasanaeth yn adolygu'r ffordd yr hyrwyddir yr adnoddau hyn er mwyn gweld sut y gellid gwella'r defnydd a wneir ohonynt cyn ymrwymo i gynyddu gwariant eto. Mae Abertawe yn parhau i fodloni'r gofynion o ran cyflenwi ceisiadau, ond ar lefel is na chynt. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol a'r defnydd o TGCh wedi'u cynnal, gyda lefelau defnydd ymhlith yr uchaf yng Nghymru, gan adlewyrchu'r angen o hyd am seilwaith TG o ansawdd da mewn cymunedau lle ceir lefelau isel o fynediad personol.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Er bod nifer y swyddi yn parhau ar lefelau 2017/18, mae'r nifer mawr o swyddi gwag yn y gwasanaeth (fel rhan o bolisi ehangach y cyngor) wedi arwain at ostyngiad o ran darpariaeth staffio wirioneddol yn 2018/19. Mae nifer y staff proffesiynol wedi cynyddu ychydig, ac arweiniodd adolygiad staffio at gynnydd yn nifer y swyddi sy'n gofyn am gymwysterau llyfrgellyddiaeth, ond erys y perfformiad o ran hyn ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru, ac nid yw'r naill darged staffio na'r llall yn cael eu cyflawni. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth wedi parhau i wella ei berfformiad o ran datblygiad / hyfforddiant y staff. Nodir gwerth gwirfoddolwyr o ran cefnogi staff cyflogedig a phrosiectau penodol, ond mae adnoddau rheoli yn y maes hwn yn atal y gwasanaeth rhag ehangu hyn ymhellach; mae cyfanswm cyfraniad y gwirfoddolwyr wedi gostwng ychydig yn 2018/19 gyda thua 28 o unigolion yn rhoi dros 60 awr yr un i'r gwasanaeth.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi parhau ar lefelau tebyg i 2017/18, gan ystyried y cynnydd mewn costau staffio, gyda'r buddsoddiad y pen ar gyfartaledd mewn gwasanaethau llyfrgell ychydig uwchlaw'r lefel ganolrifol. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi parhau ar yr un lefel hefyd a pharheir i gyflawni'r targed a bennwyd.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae naratif Abertawe unwaith eto yn canolbwyntio ar gyfraniad y gwasanaeth at themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru: *Ffyniannus a Diogel*, yn galluogi pobl i gael gafael ar adnoddau i ddatblygu sgiliau newydd a chael gwaith; *Iach ac Egniol*, yn cefnogi iechyd a lles, gan fynd i'r afael ag unigedd ac ynysu cymdeithasol; *Uchelgeisiol ac yn Dysgu*, yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial; ac *Unedig a Chysylltiedig*, yn gweithio gyda phartneriaid, gan gefnogi cynhwysiant digidol a darpariaeth Gymraeg.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Abertawe yn tynnu sylw at ei flaenoriaethau diwygiedig, wedi'u diweddarau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell, fel y'i nodir yn ei Gynllun Gwasanaeth newydd ar gyfer 2018-21, gan nodi rôl annatod partneriaethau, a chymryd rhan mewn mentrau ac ymgyrchoedd cenedlaethol. Gan weithio'n lleol, bydd y gwasanaeth yn ymchwilio i botensial modelau hwb i ddarparu ei wasanaethau, ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy. Byddai ychydig mwy o fyfyrion ar flaenoriaethau datblygu dros y flwyddyn nesaf wedi cryfhau'r naratif o ran hyn.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Abertawe wedi llwyddo i gynnal ei berfformiad yn fras yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, gyda chryfderau nodedig mewn rhaglennu digwyddiadau a gweithgareddau. Mae tystiolaeth o ddirywiad mewn meysydd eraill o ddefnydd gwasanaethau, fodd bynnag, tuedd a welir hefyd mewn gwasanaethau eraill ledled Cymru. Mae'r gwariant ar y gwasanaeth wedi'i gynnal, sy'n arwydd o'r gefnogaeth a gaiff ar draws yr awdurdod, gyda buddsoddiad yn y gyllideb deunyddiau wedi'i flaenoriaethu (er bod rhai o'r targedau yn y maes hwn yn dal i fod heb eu cyrraedd). Mae'r lefelau staffio yn parhau i fod yn isel, ond mae'r gofynion ar gyfer cymorth proffesiynol wedi cael eu hadolygu. Mae'r nifer uchel o swyddi gwag yn y gwasanaeth yn effeithio ar berfformiad cyffredinol, sydd yn anochel yn effeithio ar allu'r staff i hyrwyddo a darparu gwasanaethau, ac yn ffactor posibl yn y meysydd o ddefnydd sy'n dirywio. Mae datblygu a chyhoeddi Cynllun Gwasanaeth 2018-21 newydd yn golygu bod yr hawl graidd yn cael ei bodloni erbyn hyn, gan ddarparu fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau at y dyfodol.

¹Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.